



Medi 30<sup>ain</sup> 2019

Annwyl Syr/Fadam,

Ysgrifennwn i lywio'r ymateb i Adolygiad y Gweithgor Cyfraith Breifat ym Mehefin 2019. Mae'r ymateb hwn yn tynnu sylw'n benodol at yr hyn a gefnogwn a'r hyn a alwn am fwy o weithredu yn ei glych mewn ymateb i oroeswyr cam-drin domestig (menywod a phlant) sy'n mynd drwy broses y llysoedd teulu.

Croesawn yr adolygiad hwn a'r gwaith ehangach gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n edrych ar effaith proses bresennol y llysoedd teulu a sut y mae'n aml yn methu yn ei dyletswydd mewn perthynas â goroeswyr cam-drin domestig. Gellir dod o hyd i'n hymateb llawn i ymgynghoriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder [yma](#).

Mae ein pwyntiau ynghylch Adolygiad y Gweithgor Cyfraith Breifat fel a ganlyn;

**CYNGHRAIR CEFNOGI TEULUOEDD SY'N GWAHANU (SSFA):** Croesawn gynlluniau yn yr adolygiad i sicrhau bod gwasanaethau cam-drin domestig yn cael eu cynnwys yn y gynghrair, ond rydym yn glir y dylai'r asiantaethau hyn fod yn rhai a gydnabyddir fel rhai sy'n darparu gwasanaethau sydd wedi'u llywio gan rywedd a thrawma. Ar gyfer Cynghreiriau Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwhanau yng Nghymru, mae marciau ansawdd, megis Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru, yn ffordd effeithiol o fesur hyn. Fel y dangosodd yr adolygiad o PD12J, nid yw'r llysoedd ar eu ffurf bresennol yn gweithio ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig, felly galwn am fwy o eglurder ynghylch lefel y dylanwad a fydd gan y Gynghrair Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwhanau, yn arbennig os nad yw cam-drin domestig a rheolaeth gymhellol yn cael eu hadnabod yn y cyfnod cynnar hwn a rhoddir goroeswr ar y trywydd anghywir neu y disgwylir iddi fynd trwy Gyfarfod Gwybodaeth Cyfryngu ac Asesu (MIAM). Ni ddylid gweld Cynghreiriau Cefnogi Teuluoedd sy'n Gwhanau fel ffordd o frysbenno teuluoedd nad ydynt yn medru 'cytuno', ond dylid cydnabod bod angen ymyriadau pellach a diogelu ar y mwyafrif helaeth o achosion sy'n dod i'r llysoedd teulu.

**CYFARFOD GWYBODAETH CYFRYNGU AC ASESU (MIAM):** Croesawn y gydnabyddiaeth nad yw cyfryngu yn briodol mewn achosion o gam-drin domestig a chroesawn yr argymhellid y dylai'r rheini sy'n cynnal sesiynau cyfryngu gynnal hyfforddiant rheolaidd ar sut i adnabod arwyddion cam-drin domestig. Rydym yn bryderus ynghylch argymhellid 13, sy'n nodi '*efallai na fydd [cyfryngu] yn briodol lle bo cam-drin domestig yn ffactor<sup>1</sup>*', teimlwn fod yn rhaid i'r datganiad hwn fod yn gryfach; nid yw cyfryngu byth yn briodol mewn achosion o gam-drin domestig, yn arbennig oherwydd dynameg rheolaeth gymhellol. Sylwn ar y rhestr helaeth o dystiolaeth y gall goroeswr ei chyflwyno, ond teimlwn hefyd ei fod yn bwysig nodi nad oes gan lawer o oroeswyr 'dystiolaeth' allanol o'r gamdriniaeth, heblaw am eu gair, a dylid rhoi'r un pwys i hwn. Galwn am fwy o eglurder ynghylch y pwynt a wnaed yn yr adolygiad ynglŷn â '*ph'un a allai model cyfryngu amgen fod yn opsiwn, er enghraifft cynhadledd*

<sup>1</sup> <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2019/07/Private-Law-Working-Group-Review-of-the-CAP-June-2019.pdf> tudalen 66



*gwennol neu fideo ar-lein*. Wrth gwrs, y goroeswr sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu a yw am fwrw ymlaen â chyfyngu, ond rydym yn glir, hyd yn oed gyda chynhadledd fideo er enghraifft, y gall y drwgweithredwr ddal i ddefnyddio ystumiau ac arwyddion eraill i ddychryn y goroeswr, felly mae'n rhaid i gyfryngwyr fod yn ymwybodol o hyn a pheidio â chael eu gweld yn gwithio am gyfyngu gyda goroeswr hysbys. Galwn am eglurder cadarnach lle gwneir honiadau ac anogwn y gweithgor i ystyried effaith y cyfyngu o berspectif goroeswr.

**TRACIAU:** Coresawn yr ymrwymiad i gael 'traciau' penodol ar gyfer achosion sy'n ymwneud â chamdrin domestig, pryderwn fodd bynnag y bydd y brysbennu hwn yn digwydd yn y cyfnod porthgadw, y cynigir y bydd yn cael ei 'leihau' er mwyn cyflymu achosion. Mae hyn yn codi'r perygl na fydd achosion o gam-drin yn cael eu hadnabod ac felly cânt eu 'brysbennu' ar 'drac' arall. Sylweddolwn y gellir symud achosion rhwng traciau, ond mae hyn yn ddibynnol ar yr achos yn cael ei adnabod. Gwyddom nad yw goroeswyr yn aml yn cyfeirio at gam-drin domestig ac mae gofyn am weithwyr proffesiynol medrus i adnabod yr arlliwiau, yn arbennig mewn achosion o reolaeth gymhellol. Rydym yn cydnabod bod y system newydd hon yn debygol o weithio'n well lle bo cam-drin domestig yn cael ei adnabod yn y cyfnodau cynnar, ond mae angen eglurder ynghylch sut y bydd y llysoedd yn sicrhau bod cyfleoedd i adnabod camdriniaeth drwy gydol y broses.

**ACHOSION SY'N DYCHWELYD:** Pryderwn na fydd gwiriadau diogelu yn cael eu gweithredu'n awtomatig ar gyfer achosion sy'n dychwelyd. Deallwn fod y mwyafrif o'r achosion sy'n dychwelyd yn ganlyniad i chwalfa cyswllt, a'r rhiant nad yw'n breswlydd (y tad yn aml) sy'n gwnued y cais hwn. Mae'n annhebygol iawn y bydd yn datgelu bod y cyswllt wedi chwalu oherwydd ei ymddygiad (rheolaeth gymhellol, bygythiadau ac ati). Deallwn fod achosion sy'n dychwelyd ar hyn o bryd yn agored i dderbyn gwiriadau diogelu awtomatig ar ôl cyfnod penodol o amser, ond os caiff ei adael i ddisgresiwn barnwrol i ofyn am wiriad o dan y broses newydd, mae'n bosibl y caiff cam-drin domestig ei fethu. Dywed yr adroddiad ei hun; *'Roedd y math mwyaf cyffredin o achosion yn ymwneud â rhieni yr oedd eu gwrthdaro â'i gilydd yn eu hatal rhag gwneud i orchymyn cyswllt weithio'n ddibynadwy yn ymarfero<sup>2</sup>*. Amlyga hyn ein pryder mai 'gwrthdaro' yw'r rheswm dros dychwelyd, (er ein bod yn wyliadwrus ynghylch defnyddio'r term gan ei fod yn fwy tebygol mai ymddygiad y drwgweithredwr ydyw). Dywed yr adroddiad hefyd; *'mewn gwirionedd mae'n gymharol brin i achosion dychwelyd oherwydd bod y rhiant sydd â gofal yn gwbl elyniaethus<sup>3</sup>*, mae hyn yn awgrymu i ni ei bod wedi cymryd camau i amddiffyn ei phlant a hi ei hun a'i bod wedi rhoi terfyn ar gyswllt sydd wedi arwain at y drwgweithredwr yn teimlo ei fod wedi colli rheolaeth a bod angen iddo ddod â'r llys yn ôl i mewn er mwyn ail sefydlu'r rheolaeth honno. Felly caiff cyfleoedd i amddiffyn y goroeswr a'i phlant eu methu os nad oes mesurau diogelu awtomatig ar waith.

<sup>2</sup> *ibid*, tudalen 53

<sup>3</sup> *ibid*, tudalen 53



Croesawn y cyfle i gyfrannu at yr adolygiad pwysig hwn ac rydym ar gael i drafod y pwyntiau a godwyd yma, pe bai hynny o gymorth.

Yn gywir,

Elinor Crouch-Puzey  
Swyddog Polisi ac Ymchwil